

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Gofalwyr Di-dâl

Crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad

Ebrill 2026

Age Cymru yw'r brif elusen genedlaethol sy'n gweithio i wella bywydau pobl hŷn yng Nghymru. Credwn y dylai pobl hŷn allu byw bywydau iach a chyffyrddus, gydag incwm digonol, mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel a'r cyfle i lunio eu dyfodol eu hunain. Rydym yn ceisio darparu llais cryf i bob person hŷn yng Nghymru ac i godi ymwybyddiaeth o'r materion sy'n bwysig iddynt.

Gwella'r broses o adnabod gofalwyr

Credwn fod y strategaeth yn fwy tebygol o wella bywydau mwy o ofalwyr di-dâl os oes adran ar adnabod wedi'i neilltuo i ofalwyr hŷn. O dan ganlyniad dau sonir am y cynnydd mewn cysylltiadau gan ofalwyr di-dâl a gofnodwyd gan awdurdodau lleol. Mae'r strategaeth ddrafft yn cydnabod bod pobl hŷn yn llai tebygol o weld eu hunain fel gofalwyr, felly rhaid i'r broses fonitro gynnwys dadansoddiad o adnabod yn ôl oedran er mwyn sicrhau y gellir cymryd camau i ganolbwyntio adnoddau ar feysydd lle mae adnabod yn dal i fod yn broblem.

Rydym yn falch o weld cydnabyddiaeth yn y strategaeth y gall allgáu digidol fod yn rhwystr. Hoffem i'r strategaeth derfynol ymrwymo i'r holl gynlluniau sy'n ymwneud ag ymwybyddiaeth, gan gynnwys cyfathrebu all-lein ym mhob lle y mae gofalwyr di-dâl hŷn yn debygol o fod mewn cysylltiad â nhw.

Mynediad at wasanaethau

Rydym yn croesawu'r gydnabyddiaeth bod y gwasanaethau sydd ar gael yn llawer is na'r lefelau sydd eu hangen ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn i ofalwyr. Mae adroddiad 'At Breaking Point' y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym mis Ebrill 2026 yn tynnu sylw at ddiffyg cynaliadwyedd gwasanaethau gofalwyr. Mae'n tynnu sylw at y bregusrwydd cynyddol o wasanaethau'r trydydd sector. Felly, byddem yn disgwyl gweld yr adran hon yn cydnabod yr angen am ymrwymiad hirdymor i gefnogi grwpiau cymunedol a gwasanaethau trydydd sector dan gcontract.

Gofal seibiant (a elwir yn 'ofal amgen' yn y strategaeth)

Rydym yn croesawu'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y maes hwn. Mae'r ymrwymiad i'r Cynllun Seibiannau Byr Cenedlaethol tan 2029 yn arbennig o ddefnyddiol, gan fod hwn yn gynllun sydd wedi dangos canlyniadau cadarnhaol ar gyfer gofalwyr.

Mae'r ymgynghoriad drafft yn manylu mai un mesur o lwyddiant fydd nifer y gofalwyr sy'n cael mynediad at ofal seibiant. Yn ein harolygon blynyddol, adborth cyson gan ofalwyr hŷn yw nad yw'r cymorth a gynigir gan ofal cymdeithasol yn aml yn gwella lles y gofalwr neu'r person sy'n derbyn gofal. Yn ein hadroddiadau ar oedi mewn mynediad at ofal cymdeithasol i bobl hŷn, clywsom gan awdurdodau lleol nad oedd eu cynlluniau i wella cymorth i ofalwyr yn symud ymlaen ac felly nid oedd safon y cymorth ar gyfer gofalwyr yn gwella.

Rydym yn awgrymu y dylai'r mesur fynd ymhellach a mesur a yw'r gofal seibiant a ddarperir yn diwallu anghenion y gofalwr a'r unigolyn sy'n derbyn gofal ac yn gwella eu lles.

Heriau gofalwyr hŷn

Dangosodd ein dadansoddiad o ganlyniadau ein harolwg 2025 fod gofalwyr hŷn yn profi cyfradd uwch o heriau na phobl hŷn eraill ar draws sawl maes o'u bywydau.

Cyllid

Credwn y dylai'r flaenoriaeth hon ystyried mynd ymhellach na 'darparu gwybodaeth i ofalwyr di-dâl i wneud y mwyaf o incwm a hyrwyddo manteisio ar fudd-daliadau,' gan fod ein hymgysylltiad diweddar yn dangos llawer o achosion lle mae gwneud y mwyaf o incwm yn dal i adael gofalwyr hŷn ychydig yn uwch na'r trothwy ar gyfer derbyn cymorth er eu bod yn byw mewn tlodi. Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, hoffem weld ymrwymiad i weithio gyda Llywodraeth y DU i fynd i'r afael â materion trothwy.

Mae'r strategaeth yn cydnabod rhai o'r costau ariannol ychwanegol i ofalwyr. Nid yw'n cydnabod y ffaith bod talu am 'wasanaethau ymyl gofal' fel glanhau, siopa, a gwasanaethau sy'n galw am weithiwr proffesiynol yn gost sylweddol i ofalwyr sydd â'u problemau iechyd a'u hanghenion symudedd eu hunain. Heb y gydnabyddiaeth honno yn y strategaeth, mae cynllunio gofal a chynllunio ariannol yn anwybyddu'r meysydd hyn ac yn golygu bod gofalwyr hŷn mewn perygl o wynebu lefelau uwch o dlodi.

Iechyd meddwl a lles

O ystyried effeithiau cadarnhaol grwpiau cymorth cymheiriaid wrth ddarparu cymorth a chynghor cynharach i ofalwyr, rydym hefyd yn disgwyl gweld ymrwymiad i ddarparu cefnogaeth drwy fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i gynnwys grwpiau cymheiriaid fel rhan o lwybrau cynllunio gofal a sicrhau bod y grwpiau hynny'n cael eu cefnogi i barhau lle maent eisoes yn bodoli, neu ddatblygu mewn ardaloedd lle nad ydynt yn gweithredu. Bydd hyn yn gwella cysondeb yn y 'cynnig' i ofalwyr ledled Cymru ac yn cefnogi ymrwymladau cenedlaethol i ymyrraeth ac atal yn gynharach.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdedig 1128436. Cwmni cyfyngedig trwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestrdedig yw Y Llawr Gwaelod, Tŷ'r Morwyr, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2026.